IBO

IB DIPLOMA PROGRAMME
PROGRAMME DU DIPLÔME DU BI
PROGRAMA DEL DIPLOMA DEL BI

M05/2/ABWEL/SP1/WEL/TZ0/XX/T

22052421

**WELSH B – STANDARD LEVEL – PAPER 1**
**GALLOIS B – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 1**
**GALÉS B – NIVEL MEDIO – PRUEBA 1**

Monday 16 May 2005 (morning)
Lundi 16 mai 2005 (matin)
Lunes 16 de mayo de 2005 (mañana)

1 h 30 m

---

TEXT BOOKLET – INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this booklet until instructed to do so.
- This booklet contains all of the texts required for Paper 1.
- Answer the questions in the Question and Answer Booklet provided.

LIVRET DE TEXTES – INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- N’ouvrez pas ce livret avant d’y être autorisé(e).
- Ce livret contient tous les textes nécessaires à l’épreuve 1.
- Répondez à toutes les questions dans le livret de questions et réponses fourni.

CUADERNO DE TEXTOS – INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS


- No abra este cuaderno hasta que se lo autoricen.
- Este cuaderno contiene todos los textos para la Prueba 1.
- Conteste todas las preguntas en el cuaderno de preguntas y respuestas.

**TESTUN A**

# Diogelwch ar Noson Tân Gwyllt

## tân gwyllt

- cofiwch fod tân gwyllt yn cynnwys powdwr gwn; nid teganau mohonyn nhw.



- mae tân gwyllt yn achosi llawer o ddamweiniau bob blwyddyn, a hanner y damweiniau hynny'n digwydd i blant dan 16 oed.

- peidiwch byth â thaflu tân gwyllt ar goelcerth.

- peidiwch byth â rhoi tân gwyllt yn eich poced.

- peidiwch â mynd yn agos at dân gwyllt sydd ddim wedi gweithio.

- peidiwch â chodi tân gwyllt y diwrnod ar ôl parti tân gwyllt. Mae'n bosibl y bydd powdwr gwn ynddyn nhw o hyd, a gallant achosi damwain.

- peidiwch â phrynu tân gwyllt heb y Safon Diogelwch Prydeinig 7114, a chofiwch ddarllen y cyfarwyddiadau bob tro.

- ni ddylai plant byth gyffwrdd â thân gwyllt.

## anifeiliaid anwes



- dydy anifeiliaid ddim yn hoffi sŵn mawr a fflachiadau.

- gwnewch yn siŵr bod eich ci yn y tŷ ar noson Guto Ffowc.

- mae cathod yn tueddu i grwydro oddi cartref. Triwch wneud yn siŵr bod eich cath yn aros i mewn ar noson Guto Ffowc.

- caewch y llenni a gadewch y teledu neu'r radio ymlaen yn yr ystafell lle bydd eich ci neu gath yn aros. Byddant yn teimlo'n fwy diogel.

- mae tân gwyllt yn aml yn cael eu cynnau dros sawl noson; cymerwch fwy o ofal o'ch anifeiliaid anwes yn y cyfnod hwn.

**TESTUN B**

# LLEISIAU AR GYFER Y DYFODOL

MAE llais un o awduron mwyaf poblogaidd Cymru i'w glywed ar CD yr wythnos hon.

*Lleuad yn Olau* gan T. Llew Jones yw un o dri llyfr sain newydd wedi eu rhyddhau gan gwmni Tympan.

Dewisodd yr awdur rai o'i hoff chwedlau o'r casgliad ac fe recordiwyd ef yn darllen y storïau yn ei gartref gan Eleri Hopcyn, cyfarwyddwr Tympan.

"Roedd e mor frwdfrydig ag erioed," meddai Eleri, "ac mae ei lais e fel cloch."

Mae'r arlwy hefyd yn cynnwys cyfrol fuddugol Angharad Price, *O, Tyn y Gorchudd*, gyda'r actores Betsan Llwyd yn adrodd hanes Rebecca Jones a theulu Tynybraich o Gwm Maesglasau, Sir Feirionnydd.

## Opera

Mae *Storïau Pum Munud* yn ddetholiad o storïau gwerin ar gyfer plant, gyda'r cyfarwyddwr Catherine Aran, yn cyflwyno.

Un o ddatblygiadau arloesol y byd cyhoeddi dros y degawd diwethaf yw'r twf aruthrol mewn gwerthiant llyfrau sain.

Yn 2002 fe brynodd 2 filiwn o bobl ym Mhrydain lyfrau sain ac mae hynny'n fwy nag sy'n mynd i weld opera a ballet, neu sy'n perthyn i glybiau tenis a hwylio.

"Ymgais i ymateb i'r bwlch yn y farchnad Gymraeg yw'r symbyliad tu ôl i fenter Tympan," meddai Eleri Hopcyn.

## Llai

"Y bwriad yw cyflwyno llenyddiaeth Gymraeg i ystod eang o brynwyr gan gynnwys pobl na fyddant fel rheol yn prynu neu fenthyg llyfrau Cymraeg," ychwanegodd.

"Mewn byd lle mae llai a llai o amser i oedi a darllen mae llyfr sain yn ffordd hwylus a chyfoes o agor y drws i fyd llen."

Mae Tympan yn bwriadu cyhoeddi gweithiau clasurol, llenyddiaeth boblogaidd a llyfrau gosod arholiadau ar CD yn y dyfodol agos.



**TESTUN C**

# WRTH EI GYNFFON

Roedd Arwel yn ddeugain ac er mwyn dathlu'r achlysur roedd ef, Annwen ei wraig, a rhai o'u ffrindiau yn mynd allan am bryd o fwyd arbennig.

Wrth goluro'i hwyneb roedd Annwen yn pwdu. Mor ddiantur, mor ddof oedd Arwel. Aethai'n barchus ac yn ganol oed ac yn ddosbarth canol a rhywsut roedd e wedi llwyddo i'w llusgo hi i'r canol gyda fe.

Nawr ychydig o wythnosau 'nôl cawsai Huw – un o'r ffrindiau a fyddai'n ymuno â nhw y noson honno – cawsai Huw ei ben-blwydd yn ddeugain oed ac roedd e wedi'i ddathlu i'r eithaf. Roedd wedi llogi neuadd a phobl broffesiynol i ofalu am y bwyd (cimwch, cyw iâr, teisiennau, cnau, creision, selsig a winwns a chaws ar briciau, jeli, hufen iâ, brechdanau, siocledi…); roedd wedi gwario ffortiwn ar ddiodydd – cwrw a gwinoedd a siampên afraid dweud; cawsai'r neuadd ei haddurno – canhwyllau, balwnau, sêr, goleuadau, blodau, rhubanau a phapur amryliw. Daethai cannoedd – yn llythrennol – cannoedd o'i ffrindiau a'i deulu; bu ei fam yn bresennol, a'i chwaer, a phlant ei chwaer a phlant plant ei chwaer – pob oedran felly. Trefnwyd miwsig a dawnsio a gemau trwy'r noson. Mae'n wir, meddyliai Annwen, fod Huw wedi mynd dros ben llestri, fel arfer, ond cawsant hwyl a bu'n rhaid iddi edmygu Huw am ddefnyddio cymaint o egni a dychymyg. Doedd e ddim yn ildio i amser, yn wahanol i rai pobl, meddyliai, gan daro cipolwg ar ei gŵr yn y drych. Pam roedd hi ac Arwel, wel Arwel a hithau'n ei ddilyn fel cynffon – pam roedd rhaid iddyn nhw dderbyn y drefn a mynd mor ddi-liw a digychwyn fel pawb arall? Swydd Arwel, ei barchus arswydus swydd fel prifathro, a'r plant, oedd wedi gwneud y gwahaniaeth

Yn ddiweddar aethai Annwen i alw ei meibion (yn ei phen, yn ei dychymyg, wrth gwrs), aethai i feddwl amdanynt fel triawd y buarth – mor flêr a gwyllt a brwnt oeddynt. Yr hynaf, Aneirin, yn ei arddegau, a'r ddau arall, Taliesin ac Elffin, ar drothwy'r arddegau. Ei babanod bach diddig a meddal wedi troi'n anifeiliaid anystywallt a drewllyd. Ond am fod ganddyn nhw'r creaduriaid hyn roedd rhyw ddisgwyl anysgrifenedig gan Gymdeithas iddi hi ac Arwel ymddwyn yn barchus drwy'r amser o hyn ymlaen. Canol oed, dosbarth canol, canol y ffordd. Fel yn y gân – ond ni allai gofio pa gân – henaint ni ddaw ei hunan!

**TESTUN CH**

# Yr arth wen a'i dyfodol

Roedd y gyflwynwraig deledu, Sarah Jones, yn edrych ymlaen at weld yr arth wen yn ei chynefin yng Nghanada. Ond tra'n ffilmio ym Mae Hudson y sylwodd hefyd ar effaith twristiaeth ar anifeiliaid gwyllt…

Fe gafodd cydwybod y gyflwynwraig deledu Sarah Jones ei dynnu bob ffordd wrth iddi dreulio wythnos yng Nghanada yn gwylio eirth gwyn.

Doedd bod yno'n ffilmio ar gyfer y rhaglen **Gwyllt**, a dysgu am arferion yr eirth ddim yn ei phoeni. Bod yn un o'r miloedd oedd yn heidio yno i wneud hynny oedd y broblem, gan fod twristiaeth yn cael effaith andwyol ar amgylchedd yr arth.

"Pan oeddwn i'n meddwl am gychwyn yno, a meddwl be' fyddai yn y rhaglen, disgwyl mynd yno jyst i weld yr eirth yn bwydo ar y iâ oeddwn i," meddai Sarah Jones. "Ond ar ôl cyrraedd yno, mi oedd hi'n amlwg mai effaith y *tourists* fyddai'r prif beth yn y rhaglen."

Yr eirth gwyn - sy'n dod i fwydo ar rew Bae Hudson yng Nghanada bob gaeaf - ydi prif atyniad tre' Churchill sydd reit ar lan y Bae. Mae yna dripiau ar dripiau yn mynd rownd y rîl o'r dre' i weld yr eirth, a chyrsiau ar gyrsiau yn cael eu cynnal i ddysgu pobol am gynefin ac arferion yr arth wen.

Mae hyn yn bwysig, ac mae chwilfrydedd yn beth naturiol, meddai Sarah Jones, sydd wedi gweithio mewn Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Mae'n credu'n gry' bod angen i bobol ddeall pethau fel hyn.

Ond mae'n bechod hefyd, meddai - mae gormod o ymyrraeth yn ddrwg i'r anifeiliaid a'u hamgylchedd.

"Mae'r eirth yno wedi dechrau dod i arfer hefo pobol rŵan, ac mae llawer ohonyn nhw wedi dofi, ac mae hynna'n ddigon drwg," meddai.

"Ond mae yna bobol yn eu bwydo nhw hefyd, ac mae hynna'n beth gwaeth, dydi o ddim yn beth naturiol o gwbwl."

Roedd Sarah Jones a chriw cynhyrchu cwmni Telesgôp, yn treulio rhai dyddiau ar fysus arbennig yn gwylio'r eirth. Bryd hynny, roedden nhw led braich oddi wrthyn nhw, ac yn gallu sylwi ar rinweddau gwahanol bob un.

